


# Comisiynydd Plant Cymru
# Children's Commissioner for Wales

**Pwy yw'r Comisiynydd Plant?**

Keith Towler yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei waith yw siarad dros blant a phobl ifanc, gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod am eu hawliau a'u bod nhw'n saff. Mae ganddo fe dîm o 30 o staff i'w helpu i wneud ei waith.

**Beth yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)?**

Mae CCUHP yn rhestru'r hawliau sydd gan bob plentyn o dan 18 oed, dros y byd i gyd. Pwrpas yr hawliau yma yw helpu plant a phobl ifanc i dyfu i fyny'n teimlo'n ddiogel, i gael y pethau maen nhw eu hangen, ac i gael gwrandawiad.

Mae gan y Cenhedloedd Unedig Bwyllgor sy'n edrych i weld ydy llywodraethau'n gwneud popeth dylen nhw i wneud yn siŵr bod plant yn gwybod am eu hawliau ac yn eu derbyn. Eleni, daeth y pedwar Comisiynydd yn y DU at ei gilydd i ysgrifennu adroddiad, a gwnaethon nhw anfon yr adroddiad at y Pwyllgor i ddweud pa mor dda (neu beidio) roedden nhw'n teimlo bod y llywodraeth yn llwyddo.

**Beth rydyn ni wedi bod yn gwneud?**

Eleni rydyn ni wedi dal ati i weithio gyda phlant o bob rhan o Gymru, yn cwrdd â nhw, yn gwrando, yn rhoi cyngor a chefnogaeth, ac yn eu cynnwys yn ein gwaith. Rydyn ni hefyd yn cwrdd â phobl sydd â phŵer i wella pethau i blant ar draws Cymru.

Dyma rai o'r pethau eraill rydyn ni wedi bod yn eu gwneud:

- Prynu fan er mwyn gallu teithio allan i ymweld â grwpiau o blant a phobl ifanc
- Lansio gwefan newydd sbon sy'n cynnwys 'Atebnôl', ffordd i blant a phobl ifanc roi eu barn ar-lein, a'n gêm 'Gwybod eich Hawliau' ar-lein
- Llysgenhadon Ysgol – ein prosiect ysgolion cynradd sy'n helpu disgyblion i ddysgu am eu hawliau a'r Comisiynydd
- 'Dawn Ddedwydd' – prosiect am chwarae i blant anabl y pleidleisiodd plant a phobl ifanc drosto

**Rydyn ni wedi bod yn rhoi pwysau ar bobl i wneud y pethau yma:**

- Gwasanaeth cwnsela ym mhob ysgol
- Mwy o eiriolwyr i fwy o blant
- Gwasanaethau gwell i blant sydd eu hangen (iechyd meddwl)
- Gwell toiledau ysgol
- Gwrando ar bobl ifanc am Lwfansau Cynnal Addysg
- Mwy o nyrsys teulu
- Mwy o gyfleoedd gwell i chwarae
- Mwy o barch at bobl ifanc – stopio bod mor negyddol
- Cludiant diogel a glân i'r ysgol ac yn ôl

**Beth rydyn ni'n mynd i wneud:**

- Cynnwys mwy o blant a phobl ifanc wrth benderfynu beth i'w wneud
- Gweithio gyda gofalwyr ifanc
- Gwella Dysgu – prosiect arall y pleidleisiodd plant drosto, am wella eu hamser yn yr ysgol
- Edrych ar sut mae plant yn derbyn sylw yn y cyfryngau

**Diolch i'r bobl ifanc ar y Grwpiau Ymgynghorol – rydyn ni'n wir yn gwerthfawrogi eich holl amser a'ch gwaith caled eleni!**

**Who is the Children's Commissioner?**

Keith Towler is the Children's Commissioner for Wales. His job is to speak up for children and young people, to make sure they know about their rights and that they are safe. He has team of 30 staff to help him do his job.

**What is the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)?**

The UNCRC is a list of rights that all children around the world, up to the age of 18, have. These rights are to help children and young people grow up feeling safe, have the things that they need and are listened to.

The United Nations has a Committee which checks if governments are doing everything they should to make sure children know about and get their rights. This year the four UK Commissioners came together to write a report which they sent to this Committee to say how well (or not) they thought the government was doing.

**What have we been doing?**

This year we have kept on working with children from all over Wales, meeting, listening, offering advice and support and involving them in our work. We also meet with people who have the power to make things better for children across Wales.

Here are some other things we've been up to:

- Bought a van to take out to visit groups of children and young people
- Launched a brand new website which includes 'Backchat', a way for children and young people to give their views online, and our 'Know Your Rights' online game
- School Ambassadors – our primary schools project which helps pupils learn about their rights and the Commissioner
- 'Happy Talent' A project voted for by children and young people about play for disabled children


**We've been putting pressure on people to do these things:**

- Counsellors in all schools
- More advocates for more children
- Better services for children who need them (mental health)
- Better school toilets
- Listen to young people about Education Maintenance Allowances
- More family nurses
- More and better chances for play
- More respect for young people – stop being so negative
- Safe and clean transport to and from school

**What we're going to do:**

- Involve more children and young people in deciding what we do
- Work with young carers
- Making Learning Better – another project voted for by children about improving their time in school
- Look at how children are talked about in the media

**Thanks to the young people on the Advisory Groups, we really appreciate all the time and hard work you've put in this year!**




Tecst/Text
**80800**
(dechreuwch neges gyda COM)
(start message with COM)

Dylunion/Design elfen.co.uk

www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk